# Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033

## Dogfen Ymgynghori Adnau (Dogfen Gryno)









## 1. Materion allweddol, ysgogwyr,  gweledigaeth ac amcanion

Nodwyd amrywiaeth o faterion ac ysgogwyr allweddol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori lawn. Mae'r rhain wedi llywio datblygiad gweledigaeth ac amcanion y CDLl Newydd Adneuo yn uniongyrchol:

*Y weledigaeth ar gyfer 2033*

*Ers troad y mileniwm, mae Pen-y-bont ar Ogwr a'r fwrdeistref sirol ehangach wedi ymgymryd â'r dasg o ehangu mynediad i wasanaethau allweddol, gwella ansawdd amgylcheddol ffisegol a gwella ansawdd bywyd trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr. Bydd y trawsnewid hwn yn parhau drwy gydol cyfnod y CDLl, gan arwain at barhau datblygu rhwydwaith diogel, iach a chynhwysol o gymunedau sy'n cysylltu'n ehangach â'r rhanbarthau i alluogi twf economaidd cynaliadwy.*

*Blaenoriaethau'r Cyngor*

*Mae'r fwrdeistref sirol eisoes yn ganolfan gyflogaeth ranbarthol fawr, gyda chryfderau penodol mewn gweithgynhyrchu uwch. Bydd yr asedau economaidd-gymdeithasol hyn yn cael eu cryfhau i wella cystadleurwydd economaidd y fwrdeistref sirol gan gyfrannu'n sylweddol at lwyddiant Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Rhanbarth Bae Abertawe. Bydd annog mewnfuddsoddiad i wella seilwaith, darpariaeth cyflogaeth a chyfleoedd dysgu gydol oes yn denu ac yn cadw gweithwyr medrus a fydd yn eu tro yn annog busnesau i ddod â mwy o gyflogaeth fedrus i'r ardal. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hefyd weledigaeth i wneud Pen-y-bont ar Ogwr yn fwrdeistref sirol glyfar sydd wedi'i datgarboneiddio a'i chysylltu'n ddigidol. Wrth wneud hynny bydd yn trosglwyddo i system ynni carbon isel, ddatganoledig sy'n gweithio ar gyfer ei hunigolion, ei chymunedau a'i busnesau. Wrth gyflawni ei weledigaeth o fwrdeistref sirol glyfar sydd wedi'i chysylltu'n ddigidol, mae'r cyngor yn bwriadu:*

- *datgarboneiddio'r sector ynni ac i geisio cyflawni cartrefi di-garbon,*
- *ysgogi twf economaidd,*
- *darparu cyfleoedd gwaith newydd, a*
- *denu busnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes i dreialu mentrau a thyfu o fewn y fwrdeistref sirol*

*Gweledigaeth ofodol*

*Bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod y brif dref, a bydd twf atodol yn adeiladu ar ei llwyddiant fel canolfan gyflogaeth, masnachol a gwasanaeth rhanbarthol. Bydd datblygiadau cyflogaeth, masnach a phreswyl ychwanegol yn canolbwyntio ar drefi sefydledig eraill i gyflawni patrymau twf cynaliadwy sy'n cefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol sy'n bodoli eisoes. Bydd twf a arweinir gan adfywio hefyd yn cael ei gyfeirio tuag at Borthcawl drwy ailddatblygu'r glannau i fanteisio ar swyddogaeth y dref yn brif gyrchfan glan môr a thwristiaeth. Yn ogystal, bydd aneddiadau'r cymoedd yn cael eu clustnodi ar gyfer adfywio cynaliadwy, gyda chydnabyddiaeth mai Maesteg a Chwm Llynfi sydd â'r capasiti a'r seilwaith mwyaf posibl i ddarparu ar gyfer twf yn y dyfodol. Cyflawnir y weledigaeth hon drwy gynnal a datblygu aneddiadau cryf, cyd-ddibynnol, cysylltiedig a chydlynol, gan ddiogelu a gwella asedau amgylcheddol a threftadaeth y fwrdeistref sirol. Bydd hyn yn cynnig y canlynol i bobl:*

- *y dechrau gorau mewn bywyd drwy ddarparu amgylcheddau dysgu effeithiol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr;*
- *cyfleoedd i leihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd; ac*
- *ansawdd bywyd gwell ac amgylchedd iach i bawb sy'n byw, yn gweithio, yn ymlacio yn yr ardal ac yn ymweld â hi.*

Bydd gweledigaeth y CDLl yn cael ei chyflawni drwy gyflawni pedwar amcan strategol:

- ***SOBJ1: Creu lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel (creu lleoedd)***
- ***SOBJ2: Creu cymunedau gweithredol, iach, cydlynus a chymdeithasol***
- ***SOBJ3: Creu lleoedd cynhyrchiol a mentrus***
- ***SOBJ4: Diogelu a gwella lleoedd nodedig a naturiol***

Diffiniwyd yr amcanion strategol i adlewyrchu materion allweddol a nodwyd, alinio â pholisi cenedlaethol a sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwahanol elfennau cynaliadwyedd. Maent yn drawsbynciol eu natur a hefyd yn croesgyfeirio nodau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Llesiant Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn ei dro, cefnogir y weledigaeth a'r pedwar amcan strategol gan 35 o amcanion penodol a nodir yn y ddogfen ymgynghori lawn. Bydd yr amcanion hefyd yn rhan o'r sail ar gyfer monitro gweithredu'r cynllun, ar ôl iddo gael ei fabwysiadu a'i wneud yn weithredol.

Mae'r materion a'r ysgogwyr allweddol a nodwyd drwy'r broses o baratoi'r CDLl Newydd Adneuo wedi llywio'n uniongyrchol y gwaith o ddatblygu gweledigaeth ac amcanion y CDLl.

## 2. Strategaeth dwf

Mae'r CDLl Newydd Adneuo yn seiliedig ar lefel gytbwys a chynaliadwy o dwf economaidd a fydd yn hwyluso'r gwaith o drawsnewid y fwrdeistref sirol yn rhwydwaith o gymunedau diogel, iach a chynhwysol sy'n cysylltu'n ehangach â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a Rhanbarth Bae Abertawe. Mae'r strategaeth yn darparu ar gyfer lefel o dwf a ystyrir y fwyaf ffafriol i gyflawni cydbwysedd rhwng nifer y cartrefi a ddarperir (505 y flwyddyn)  a'r cyfleoedd gwaith a ddisgwylir (500 y flwyddyn) a nodir ymhellach ym Mholisi Strategol 1 y ddogfen ymgynghori lawn. Bydd hyn yn arwain at aelwydydd mwy sefydledig yn aros o fewn ac yn symud i mewn i'r fwrdeistref sirol, ynghyd â llai o allfudo ar draws grwpiau oedran economaidd weithgar eraill. Bydd hyn yn annog sylfaen boblogaeth iau a medrus i wrthbwyso’r boblogaeth sy'n heneiddio.

Gellir egluro'r strategaeth dwf yn gryno gyda’r acronym '**CARM'** yn Saesneg (Counter-balance, Attract, Retain, Magnet) sy'n crynhoi bwriadau'r strategaeth i **gydbwyso'r** boblogaeth sy'n heneiddio drwy **ddenu** aelwydydd medrus ac economaidd weithgar, **cadw** aelwydydd economaidd weithgar, a gwneud y fwrdeistref sirol yn **fagned i** gyflogwyr ehangu ynddi neu symud i mewn iddi.

## 3. Strategaeth ofodol

Mae'r CDLl Newydd Adneuo yn amlinellu strategaeth ofodol glir i helpu i wireddu dyheadau a blaenoriaethau adfywio’r cyngor, gan gydbwyso'r angen i gyflawni gofynion tai yn y dyfodol hyd at 2033. Mae'r strategaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu tir o fewn neu ar gyrion ardaloedd trefol cynaliadwy, ar safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol (tir llwyd) yn y lle cyntaf. Mae ffurf arfaethedig y twf yn amrywio ar draws y fwrdeistref sirol, gan gydnabod cyd-destun lleol aneddiadau, drwy ddynodi tri maes allweddol:

- **ardaloedd twf adfywio,** sydd yn bennaf yn ceisio darparu safleoedd y mae angen eu hailddatblygu ac angen buddsoddiad i fod o fudd eang i'r gymuned, gan gydnabod y bydd weithiau angen cyfnod rhagarweiniol hwy. Mae Porthcawl, Maesteg a Chwm Llynfi wedi'u dynodi'n ardaloedd twf adfywio, gydag ymrwymiad parhaus i gyfleoedd datblygu tir llwyd yn yr aneddiadau hyn;
- **ardaloedd adfywio,** sy’n cynnwys aneddiadau a fyddai’n elwa ar adfywiad yn y gymuned, gan gydnabod bod angen amrywiaeth o ddulliau gweithredu er mwyn annog cyfleoedd buddsoddi yn y gymuned. Mae Cymoedd Ogwr a Garw wedi'u dynodi'n ardaloedd adfywio ac mae’r CDLl Newydd yn bwriadu manteisio ar eu hamgylchoedd gwledig i hybu ffordd o fyw llesol, tyfu’r diwydiant twristiaeth a hwyluso datblygiad llai o faint yn bennaf ar safleoedd tir llwyd;
- **ardaloedd twf cynaliadwy,** sy’n cynnwys yr aneddiadau hynny sy'n gydnaws i ehangu rhesymegol drwy ddarparu safleoedd a danddefnyddir yn eu hardal weithredol ac/neu ar eu cyrion. Mae'r rhain yn cynnwys aneddiadau Pen-y-bont ar Ogwr, Pencoed ac anheddiad grŵp y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli. Nodwyd yr ardaloedd twf cynaliadwy yn seiliedig ar ba mor hygyrch yr ydynt, ar ba mor hawdd yw cael gafael ar amwynderau a’r ddarpariaeth o gyflogaeth

(ystod a maint) yng nghyd-destun eu mannau poblogaeth presennol yn hierarchaeth yr anheddiad. Dosberthir twf i'r aneddiadau hyn yn seiliedig ar y ffactorau hyn, eu potensial i gyfrannu at gyflawni tai fforddiadwy mewn ardaloedd o angen dirfawr a'u capasiti trefol i hwyluso lefelau a phatrymau o ddatblygiad cynaliadwy, gan gydnabod y bydd angen darparu seilwaith cysylltiedig.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio sicrhau y gall datblygiadau newydd gyflwyno gwelliannau angenrheidiol i'r seilwaith, gan gynnwys rhwydweithiau trafnidiaeth, cyfleustodau, seilwaith gwyrdd, iechyd, addysg, tai fforddiadwy a chyfleusterau cymdeithasol. Nodir y dyraniadau strategol i gefnogi'r strategaeth hon ym mholisi dau y ddogfen ymgynghori lawn.

Lluniwyd y strategaeth ofodol i helpu i wireddu dyheadau a blaenoriaethau adfywio'r cyngor gan, ar yr un pryd, gydbwyso'r angen i gyflawni gofynion tai ar gyfer y fwrdeistref sirol yn y dyfodol. Cyfeirir datblygiadau at aneddiadau a rhannau o'r fwrdeistref sirol a fydd yn elwa fwyaf a lle mae cyfleoedd i sicrhau effeithiau a manteision cadarnhaol mwyaf twf.

## 4. Cynllunio da a chreu lleoedd cynaliadwy

Mae cynllunio da yn hanfodol i greu mannau cynaliadwy lle mae pobl eisiau byw, gweithio a chymdeithasu ynddynt. Wrth gyflawni datblygu cynaliadwy, mae'r CDLl Newydd Adneuo yn ceisio sicrhau cynllunio sy'n mynd y tu hwnt i estheteg i gynnwys agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol datblygu. Rhaid i gynigion datblygu ystyried sut y defnyddir lle, sut y gall adeiladau a thir y cyhoedd gefnogi'r defnydd hwn a'r berthynas â'r ardal gyfagos.

Mae cynllunio da yn rhan annatod o'r broses o greu lleoedd cynaliadwy. Mae'n bwysig bod pobl yn byw mewn mannau sy'n ddeniadol ac yn nodedig, ac sy'n gallu ymgorffori gofynion newidiol y rhai sy'n byw yno. Mae creu lleoedd yn gysyniad trosfwaol sy'n ymwneud â chynllun a chyd-destun datblygiad. Mae'n ceisio sicrhau bod y broses gynllunio, strwythur a ffurf y cynllun yn darparu datblygiad sy'n briodol i'r cyd-destun lleol ac yn cefnogi cymuned gynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod cynllunio cynaliadwy o ansawdd uchel, wedi'i ystyried yn drylwyr ac sy'n gwella'r amgylchedd ac iechyd a llesiant pobl yn hanfodol. Rhaid i'r holl ddatblygiad gael ei ddanategu drwy gymhwyso cynllunio da a dull gweithredu cynaliadwy o ran lleoli, cynllunio, adeiladu a gweithredu. Asesir cynigion datblygu ar gyfer eu cydweddoldeb cynllunio a chreu lleoedd yn unol â pholisi strategol tri a pholisïau rheoli datblygu ategol.

Mae'r polisïau yn yr adran hon yn ymwneud â chynllunio da a chreu lleoedd cynaliadwy.

## 5. Cymunedau gweithredol, iach, cydlynus a chymdeithasol

Mae'r CDLl Newydd Adneuo yn canolbwyntio ar gyflawni cymunedau cydlynol sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n weithredol, yn iach ac yn gymdeithasol. Wrth fynd i'r afael ag anghenion ehangach y gymuned, mae pwyslais arbennig ar ddarparu cymysgedd o ddefnydd cydategol sy'n hygyrch ac a fydd yn diwallu anghenion pob aelod o gymdeithas. Mae'r syniad eang hwn yn ymestyn y tu hwnt i sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer tai i ddiwallu'r angen am farchnad breifat newydd a thai fforddiadwy ac mae'n peri bod rhaid wrth fanteisio ar wneud lleoedd cynaliadwy mewn modd integredig. Felly, mae yna angen atgyfnerthol a fydd o les o’r ddeutu i sicrhau bod amrywiaeth a dewis o ddarpariaeth tai i ymateb i anghenion newidiol aelwydydd dros gyfnod y CDLl Newydd i ddarparu gwasanaethau a swyddi yn nes at le mae pobl yn byw ac i gydnabod swyddogaeth yr amgylchedd ehangach o ran iechyd a llesiant.

Er mwyn creu cymunedau cymysg a chytbwys, bydd y dewis o dai yn cael ei amlhau i’r eithaf i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o feintiau, mathau a deiliadaethau llety a all ei gwneud hi’n haws cael gafael ar gartrefi newydd o safon, gan gynnwys tai marchnad a thai fforddiadwy. Bydd hyn yn helpu i wella fforddiadwyedd cyffredinol y farchnad ac yn sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol ddiwallu eu hanghenion tai ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd y CDLl Newydd Adneuo yn ceisio amlhau i’r eithaf gyfraniadau cynllunio i ddarparu tai fforddiadwy integredig mewn ardaloedd lle mae angen mawr, lle bo hynny'n ymarferol. Bydd hyn yn helpu i feithrin cymunedau cynaliadwy, deiliadaeth gymysg a sicrhau y gall y system gynllunio gyfrannu'n effeithiol at yr angen am dai ar draws y sir, gan ategu ffynonellau eraill o ddarparu tai fforddiadwy (cyfeiriwch at bolisi strategol chwech a pholisïau rheoli datblygu ategol yn y ddogfen ymgynghori lawn).

Mae twf mewn adeiladu tai hefyd yn dod â chyfleoedd newydd i sicrhau seilwaith cysylltiedig megis gwell darpariaeth o addysg, cyfleusterau hamdden a chysylltiadau trafnidiaeth. Yn y pen draw, mae preswylwyr y cartrefi newydd yn creu mwy o alw ar y seilwaith presennol, sydd eisoes yn llawn mewn rhai ardaloedd. Felly, mae cynllunio ar gyfer twf yn gyfle allweddol i arfarnu'r effeithiau ar y seilwaith presennol, nodi gofynion cyflawni ac yna mynd i'r afael â diffygion. Mae'n hanfodol bod ansawdd bywyd holl drigolion y fwrdeistref sirol yn cael ei gynnal a’i ddiwallu'n ddigonol, a bod gwasanaethau cymunedol a chyfleusterau cymdeithasol yn parhau i ddiwallu eu hanghenion (cyfeiriwch at bolisïau strategol wyth i ddeg y ddogfen ymgynghori lawn). Yn ogystal â darparu cartrefi newydd i ddiwallu anghenion aelwydydd sydd newydd eu ffurfio, bydd y CDLl felly'n darparu'r twf sydd ei angen i sicrhau buddsoddiad mewn seilwaith, cyfleusterau a manteision ychwanegol i gymunedau lleol. Bydd y cynnydd arfaethedig yn y cyflenwad tai hefyd yn ysgogiad allweddol i dwf economaidd ar draws Pen-y-bont ar Ogwr a'r rhanbarthau ehangach.

Mae'r adran hon o’r CDLl Newydd Adneuo yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion tai a sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu cefnogi gan seilwaith angenrheidiol a digonol.

## 6. Strategaeth gyflogaeth

Un o nodau allweddol y CDLl Newydd Adneuo yw sicrhau mathau cynaliadwy o dwf a fydd yn denu ac yn cadw aelwydydd economaidd weithgar o fewn y fwrdeistref sirol. Bydd gweithlu gwell a pharhaol, sy'n cynnwys aelwydydd medrus, sefydledig, yn sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn lle addawol a dymunol i gyflogwyr symud i mewn iddo neu i ehangu o fewn iddo, gan ysgogi twf economaidd a gwella cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol. Bydd twf economaidd yn cael ei hwyluso drwy gyfeirio datblygiadau sy'n creu cyflogaeth i'r lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy, gan gefnogi ehangu busnesau sy'n bodoli eisoes a sicrhau aliniad gofodol cryf rhwng twf tai a chyflogaeth. Manylir ymhellach ar y strategaeth tir cyflogaeth gyfannol hon o fewn polisi strategol 11 yn y ddogfen ymgynghori lawn, ynghyd â'r polisïau rheoli datblygu ategol.

Mae'r adran hon yn amlinellu sut y bydd y CDLl Newydd Adneuo yn hwyluso twf economaidd drwy ddyrannu safleoedd cyflogaeth strategol allweddol, cadw a diogelu safleoedd cyflogaeth sefydledig sy'n hyfyw, a chaniatáu datblygiadau ar raddfa lai o fewn aneddiadau gwasanaeth lleol a mentrau gwledig. Bydd y llu hwn o ddarpariaethau cyflogaeth yn cynnig nifer o gyfleoedd i fuddsoddi ac yn galluogi cyflogwyr i arallgyfeirio a thyfu eu busnesau eu hunain.

## 7. Canolfannau manwerthu a datblygu

Er gwaethaf cystadleuaeth gan ddatblygiadau manwerthu y tu allan i'r canol, mae'r hierarchaeth fanwerthu sefydledig wedi parhau i esblygu dros nifer o flynyddoedd ac mae'r holl ganolfannau manwerthu a masnachol presennol yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran diwallu nid yn unig anghenion siopa a gwasanaethau ond gofynion diwylliannol a hamdden trigolion yr ardal. Mae polisi strategol 12 felly yn ceisio i ddiogelu hierarchaeth fanwerthu sefydledig yr ardal drwy ganolbwyntio datblygiadau yn y canolfannau hyn a thrwy ganiatáu datblygiad manwerthu y tu allan i'r canol dim ond lle cynhaliwyd prawf cymalog a phrawf angen, yn unol â pholisi cenedlaethol, i ddiogelu bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canolfannau manwerthu.

Paratowyd y CDLl Newydd Adneuo yng nghyd-destun y pandemig a chydnabyddir yn llawn y bydd y stryd fawr yn parhau i newid, yn enwedig yn y tymor byr. Efallai y bydd y pandemig yn cyflymu newidiadau yng nghanol trefi a strydoedd mawr ymhellach os bydd arferion gwario defnyddwyr tymor hwy yn parhau i newid. Mae'r CDLl Newydd Adneuo wedi ymgorffori polisïau cynllunio hyblyg a ffiniau manwerthu diwygiedig yng nghanol trefi, gan gydnabod eu swyddogaethau newidiol mewn ymdrech i gefnogi busnesau a manwerthwyr lleol, gan gynnwys busnesau annibynnol lleol. Bydd yn

gynyddol bwysig i ganol trefi traddodiadol ddarparu ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau na manwerthu yn unig, gan gynnwys mannau cydweithio cymunedol, iechyd, hamdden, preswyl a hyblyg ochr yn ochr ag ardaloedd â mannau agored.

Mae polisi strategol 12 (cyfeiriwch at y ddogfen ymgynghori lawn) yn rhoi hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer newidiadau yn y galw/cyflenwad er mwyn galluogi canolfannau manwerthu a masnachol i esblygu ac ymateb i sefyllfaoedd sy'n newid dros oes y CDLl Newydd. Mae hyn yn cyd-fynd â dynodi ffiniau realistig a synhwyrol sy'n galluogi amrywiaeth o ddefnyddiau a mannau cydweithio hyblyg o fewn canol trefi a chanolfannau masnachol. Mae'r galw/cyflenwad ar gyfer manwerthu cyfleustra mwy yn debygol o fod yn llai sensitif i effeithiau'r pandemig. Fodd bynnag, bydd defnyddio profion cymalog ochr yn ochr â rheoli lleoliadau y tu allan i'r canol yn ofalus yn parhau i fod yn allweddol er mwyn osgoi hyrwyddo patrymau teithio anghynaliadwy.

Mae'r adran hon o'r CDLl Newydd Adneuo yn sefydlu hierarchaeth fanwerthu, ac ar yr un pryd, yn hyrwyddo cyd-leoli cyfleusterau a gwasanaethau mewn canolfannau manwerthu a masnachol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn brif leoliadau ar gyfer cyfleusterau manwerthu, swyddfa, hamdden a chymunedol newydd. Bydd hyn yn helpu i gefnogi eu hiechyd a'u bywiogrwydd hirdymor fel mannau cyfleus a deniadol i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu, cael gafael ar wasanaethau iechyd a llesiant, ac i gynnal busnes. Bydd hefyd yn annog teithiau cysylltiedig a gostyngiad yn y galw am deithio.

**8. Ynni adnewyddadwy, adnoddau mwynau a rheoli gwastraff**

Bydd polisi strategol 13 (a pholisïau rheoli datblygu ategol) yn helpu'r fwrdeistref sirol i drosglwyddo i system ynni carbon isel, ddatganoledig sy'n gweithio ar gyfer ei hunigolion, ei chymunedau a'i busnesau drwy annog prosiectau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel a di-garbon. Cyflawnir hyn drwy nodi cyfleoedd ar gyfer capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd, wedi'i hategu gan bolisïau sy'n hyrwyddo mesurau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau (presennol ac arfaethedig). Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn nodi'r cyfraniad y gallai'r fwrdeistref sirol o bosibl ei wneud tuag at gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol, sydd wedi llywio'r targedau ynni a nodir yn y fframwaith monitro. Bydd y defnydd o ynni adnewyddadwy yn cael ei fonitro i helpu i ddangos sut mae'r CDLl yn helpu i gyflawni'r cyfraniad a nodwyd.

Mae'r diwydiant mwynau yn dal i fod yn weithredol yn y fwrdeistref sirol gyda gwaith yn dal i fynd rhagddo gyda chalchfaen, tywod a graean mewn nifer o wahanol safleoedd. Mae mwynau yn adnodd pwysig y dylid ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy leoli datblygiadau nad ydynt yn rhai mwynau i ffwrdd o ardaloedd lle mae mwynau gwaelodol o bwysigrwydd economaidd. Mae polisi strategol 14 yn annog y defnydd effeithlon a phriodol o fwynau o fewn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys ailddefnyddio ac ailgylchu mwynau addas fel dewis amgen i agregau crai. Mae'r polisi

hefyd yn nodi meini prawf ar gyfer asesu'r holl gynigion ar gyfer datblygu mwynau, ac ategir ystod o bolisïau rheoli datblygu yn y ddogfen ymgynghori lawn.

Mae lleihau gwastraff yn fater trawsbynciol arall a dylid creu cyfleoedd i atal neu leihau'r gwastraff a gynhyrchir ym mhob datblygiad. Nodir yr ardaloedd a ffefrir ar gyfer datblygu adnoddau rheoli gwastraff mewn adeiladau ar y map cynigion. Bydd cyd-leoli cyfleusterau rheoli gwastraff i alluogi datblygu rhwydweithiau gwres yn cael ei gefnogi, yn amodol ar y meini prawf ym mholisi strategol 15. Mae polisïau rheoli datblygiad ategol (yn y ddogfen ymgynghori lawn) hefyd yn nodi'r angen am ddull integredig o ddarparu cyfleusterau gwastraff ar gyfer pob datblygiad adeiledig. Efallai y bydd angen safleoedd mwy i lunio cynllun rheoli amgylcheddol, a fyddai'n nodi sut y byddai sgil-gynnyrch gwastraff a mesurau rheoli amgylcheddol eraill yn lleihau effaith adeiladu.

Mae’r adran hon o’r CDLl Newydd Adneuo yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a fydd yn cyfrannu at fodloni targedau cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel ac effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys datblygu adnoddau mwynau a rheoli gwastraff yn gynaliadwy.

## 9. Yr amgylchedd naturiol ac adeiledig

Mae amgylchedd naturiol ac adeiledig y sir o ansawdd uchel ac yn ased sylfaenol. Mae amrywiaeth tirweddau, cynefinoedd, rhywogaethau a daeareg, a'u perthynas â'r ardal drefol, yn cyfrannu'n aruthrol at gymeriad nodedig a deniadol y sir.

Mae nodweddion arbennig ac unigryw'r amgylchedd naturiol ac adeiledig yn helpu i ddenu buddsoddiad, yn hyrwyddo'r sir fel lleoliad i dwristiaid ac yn darparu profiadau diwylliannol a ffyrdd iach o fyw i'w chymunedau. Felly, mae gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol yn un o swyddogaethau allweddol y CDLl Newydd, gan gydnabod ar yr un pryd bod angen cydbwyso hyn â'r angen i hwyluso twf economaidd cynaliadwy er mwyn cyfrannu at amcanion cenedlaethol Polisi Cynllunio Cymru.

Mae'r fwrdeistref sirol yn cynnwys ardaloedd sylweddol o ddynodiadau amgylcheddol statudol rhyngwladol a chenedlaethol, yn ogystal â llawer o safleoedd bywyd gwyllt sydd o bwysigrwydd lleol, y bydd y cynllun yn eu nodi i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn a lle bo'n bosibl, eu ehangu. Yn ogystal â gwneud y sir yn lle arbennig i fyw ynddi ac i ymweld â hi, mae'r amgylchedd naturiol yn ychwanegu at arbenigrwydd rhanbarthol a lleol ac mae'n ased economaidd a chymdeithasol pwysig. Bydd angen i ddatblygiad priodol warchod a gwella cefn gwlad, tirweddau, morweddau a safleoedd daearegol sylweddol gwerthfawr. Mae'r CDLl Newydd Adneuo hefyd yn ceisio lleihau'r effeithiau ar fioamrywiaeth a darparu, lle bo'n bosibl, enillion net mewn bioamrywiaeth gan ddiogelu neu wella'r ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd ar yr un pryd wrth gydnabod ei fanteision eang. Asesir cynigion datblygu o dan bolisi strategol 17 a pholisïau rheoli datblygu ategol.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn ased diwylliannol pwysig ac yn ffynhonnell gwybodaeth benodol ac unigryw am ein gorffennol.

Mae'n rhan ganolog o'n cymeriad cenedlaethol a lleol, yn cyfrannu at ein naws am le a hunaniaeth ac yn chwarae rhan allweddol mewn addysg, hamdden a thwristiaeth. Mae'r term 'amgylchedd hanesyddol' yn cynnwys y rhannau hynny o'r amgylchedd lle mae rhyngweithio pobl a lleoedd dros amser wedi gadael tystiolaeth y gellir ei holrhain yn y dirwedd fodern. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol a ddynodwyd yn statudol, ond hefyd y dirwedd hanesyddol ehangach ac adeiladau a nodweddion lleol, gwerthfawr a phwysig. Asesir cynigion datblygu o dan bolisi strategol 18.


Mae'r adran hon o’r CDLl Newydd Adneuo yn ceisio gwarchod a gwella amgylchedd hanesyddol naturiol y fwrdeistref sirol, gan gydnabod bod y nodweddion unigryw yn helpu i ddenu buddsoddiad, hyrwyddo twristiaeth, darparu profiadau diwylliannol ac annog ffyrdd iach o fyw i gymunedau. Mae angen cydbwyso'r nodau hyn ochr yn ochr â'r angen i hwyluso twf economaidd cynaliadwy.

**10. Cynigion allweddol**

## CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

## STRATEGAETH TWF CYNALIADWY AC ADFYWIAD

### Diagram Strategol



### Cynigion allweddol ar gyfer Maesteg a Chwm Llynfi

- Tir i'r de o Bont Rhyd-y-Cyff: datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys preswyl, masnach a hamdden.
- Golchfa Maesteg: datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys preswyl, addysg, masnach, hamdden a chyflogaeth.
- Heol Ewenni, Maesteg: datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys preswyl, masnach, hamdden a chyflogaeth. Mae gan y safle hwn y potensial i ddarparu 'Canolfan y Cymoedd'.
- Safle Adfer Coegnant: datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys preswyl, chyflogaeth a hamdden.
- Llwybrau gwell ar gyfer cerdded a beicio.

### Cynigion allweddol ar gyfer Porthcawl, Y Pîl, Gogledd Corneli a Mynydd Cynffig

- Glannau Porthcawl: datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys manwerthu, hamdden, twristiaeth, preswyl, mannau agored cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a therminws bysiau.
- Tir i'r dwyrain o'r Pîl: datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys preswyl, addysg, cyfleusterau cymunedol a mannau agored cyhoeddus.
- Llwybrau gwell ar gyfer cerdded a beicio.
- Y posibilrwydd o sefydlu canolfan drafnidiaeth yng ngorsaf reilffordd y Pîl i gynnwys cyfleusterau parcio a theithio estynedig a gwell cysylltiadau â Phorthcawl ac Ystad Ddiwydiannol Fferm Bentref.

### Cynigion allweddol ar gyfer cymoedd Ogwr a Garw

- Nid yw Cymoedd Ogwr a Garw wedi'u nodi fel ardaloedd a fydd yn cynnwys twf sylweddol.
- Cyfle i greu cymunedau cynaliadwy cysylltiedig â chyfleoedd ehangach.
- Cyfleoedd ar gyfer tai cydweithredol, hunanadeiladu ac adeiladu ar fesur cwsmer ochr yn ochr â mathau eraill o ddatblygiadau.
- Hyrwyddo canolfannau twristiaeth yng Nghymoedd Ogwr a Garw, ac ym Mharc Gwledig Bryngarw.
- Gwell llwybrau cerdded a beicio.
- Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith priffyrdd lleol gwell.

### Cynigion allweddol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed

- Y tir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr: yn cynnwys preswyl, addysg, cyfleusterau cymunedol a mannau agored cyhoeddus.
- Tir i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr: datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys preswyl, hamdden, masnach ac addysg.
- Parc Afon Ewenni: yn cynnwys masnach, preswyl ac addysg.
- Tir i'r Dwyrain o Bencoed: yn cynnwys preswyl, addysg a mannau agored cyhoeddus.
- Llwybrau gwell ar gyfer cerdded a beicio.
- Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith priffyrdd lleol gwell.